BRO PEDR

POLISI LLYTHRENNEDD

2024-2025

Cyd destun Cenedlaethol

Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein dull o hyrwyddo llythrennedd gan sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i fod yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn unol â Chwricwlwm i Gymru, mae'r polisi hwn yn anelu at feithrin cariad tuag at ddarllen, ysgrifennu, siarad, gwrando a thrawsieithu gan gefnogi dysgwyr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cymhwyso sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm ac mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

'Mae llythrennedd yn sgil bywyd hanfodol. Er mwyn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas, mae angen dealltwriaeth o iaith ysgrifenedig a llafar ar bobl ifanc, y gallu i ddehongli'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu neu ei ddweud, ac i ddod i gasgliadau o'r dystiolaeth sydd o'u cwmpas. Mae hefyd yn ymwneud â gallu cyfathrebu - yn gywir, yn rhugl ac yn berswadiol' Estyn 2021

Bydd dysgwyr yng Nghymru yn mwynhau addysgu a dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo, mewn cymuned addysg sy'n gweithio ar y cyd ac yn anelu at fod yn wych, lle mae potensial pob plentyn a pherson ifanc yn cael ei ddatblygu'n weithredol." Estyn 2021

"Rydym am i'n cwricwlwm ymgorffori disgwyliadau uchel fel bod myfyrwyr yn cael eu herio a'u cefnogi i ddatblygu lefelau meddwl dwfn ac yn gallu cymhwyso eu gwybodaeth i ddatrys problemau a meddwl yn greadigol." Estyn 2021

Gweledigaeth yr ysgol

Mae Ysgol Bro Pedr wedi ymrwymo i hyrwyddo a chyflwyno llythrennedd ar draws y cwricwlwm cyfan gyda'r nod a rennir o bob dysgwr yn cael mynediad i'r cwricwlwm ac o ganlyniad codi safonau llythrennedd yn ein hysgol. Mae gwerthoedd ein hysgol yn bwydo i gryfder ein polisi llythrennedd er mwyn annog ein dysgwyr i fod yn unigolion iach, annibynnol hyderus o fewn cymdeithas .



Rydym yn cydnabod bod:

1. Addysgu llythrennedd ac ymagwedd ysgol gyfan at lythrennedd ar draws y cwricwlwm yn allweddol i godi safonau yn yr ysgol.
2. Mae gan bob disgybl yr hawl sylfaenol i ddatblygu sgiliau llythrennedd ac felly mae' nghyfrifoldeb ar bob oedolyn yn yr ysgol - mewn cyd-weithrediad â rhieni - i weithio tuag at yr amcan hwn.
3. Sgiliau llythrennedd yn cynnwys , siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a trawsieithu. Mae'r elfennau ieithyddol hyn yn allweddol i bob dysgu. Dylid hyrwyddo sgiliau llythrennedd felly yn holistiadd, ar draws y cwricwlwm.
4. Sgiliau llythrennedd yn allweddol i ddatblygiad lles personol a chymdeithasol y disgybl, ac felly'n sgil i'w thrysori er mwyn dysgu gydol oes.
5. Sgiliau llythrennedd yn hanfodol wrth ddatblygu sgiliau personol, rhyngbersonol a gweithio mewn tîm.

6. Sgiliau llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel ei gilydd, yn allweddol i greu dinasyddion dwyieithog y dyfodol
7. Mae llythrennedd yn sylfaenol i bob maes dysgu, gan ei fod yn datgloi mynediad i'r cwricwlwm ehangach. Drwy ddatblygu sgiliau llythrennedd mewn dysgwyr, rydym yn darparu cyfleoedd i ymarferwyr wneud defnydd effeithiol o'r offeryn pwerus hwn ar gyfer dysgu, o fewn ac ar draws meysydd a phynciau'r cwricwlwm.
8. Mae bod yn llythrennog yn ganolog i ddatblygiad a lles unigolyn yn ein cymdeithas. Mae'n cynyddu cyfleoedd i'r unigolyn ym mhob agwedd o fywyd ac yn gosod y sylfeini ar gyfer dysgu gydol oes.
9. Mae'r pob athro yn athrawon llythrennedd ac yn eu haddysgu pwnc mae ganddynt gyfrifoldeb am hyrwyddo ac addysgu iaith a llythrennedd er mwyn cynorthwyo dilyniant.

Diwedd y Daith
Dylai disgybl llythrennog allu sicrhau y sgiliau canlynol :-
Gwrando
*Defnyddio ei sgiliau gwrando i ymchwilio, cyfathrebu ac ymestyn ei ddealltwriaeth o destunau
*meithrin sgiliau empathi drwy wrando ar ein gilydd
*datblygu sgiliau gwrnado fel rhan o sgiliau siarad cydweithredol, fel modd o feithrin lles meddyliol ac emosiynol
Llafar

* Defnyddio sgiliau llafar i ymchwilio, cyfathrebu ac ymestyn ddealltwriaeth o destunau
* Defnyddio geirfa bwnc benodol yn gywir ac yn hyderus
* Defnyddio sgiliau llafar er mwyn gofyn cwestiynau, datblygu geirfa ac eglurder ynghyd â siarad yn gydweithredol.

Darllen

* Darllen yn hyderus, yn rhugl ac yn ddeallus
*Mabwysiadu dulliau penodol i fonitro ei ddarllen a chywiro ei gamgymeriadau e.e ffoneg,graffeg, cystrawen a chyd-destun er mwyn deall systemau synau a sillafu au defnyddio i ddarllen a sillafu'n gywir
* Darllen er mwyn pleser
*Defnyddio'r llyfrgell yn bwrpasol ac yn effeithiol
*Datblygu ei sgiliau dychmygol, beirniadol a meddyliol trwy ddarllen
*Meddu ar eirfa dechnegol eang sy'n ei alluogi i drafod a gwerthuso ei darllen
*Ymchwilio'n annibynnol a chreu nodiadau o amrywiol ffynonellau gan gynnwys y wê
*Defnyddio strategaethau darllen priodol mewn cyd destunau gwahanol

Ysgrifennu

*Ysgrifennu'n hyderus, yn rhugl , yn ddeallus a chywir
*Gwybod, deall ac ysgrifennu ystod o ffurfiau gan ddeall a gwerthfawrogi eu pwrpas
*Ysgrifennu er mwyn pleser

*Cynllunio, drafftio, adolygu a gwirio'i ysgrifennu o ffurf nodiadau i'r ffurf derfynol, gan wneud defnydd pwrpasol o Dechnoleg Gwybodaeth i hwyluso'r broses
*Dangos diddordeb mewn geiriau, eu pwrpas a'u hystyr a defnyddio ystod eang o eirfa i wahanol ddibenion
* Meddu ar eirfa dechnegol eang sy'n ei alluogi i drafod a gwerthuso ei ysgrifennu
*Addasu'r ysgrifennu i ateb amrywiol ofynion a gwahanol gynulleidfaoedd
*Defnyddio geirfa bwnc benodol yn gywir ac yn hyderus
*Gallu ysgrifennu'n gydlynus gan ddefnyddio arddull soffistigedig a defnyddio atalnodi, cystrawen, paragraffau a dulliau technegol yn gywir

Trawsieithu
*Defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus
* Defnyddio sgiliau a gwybodaeth mewn un iaith i gyfoethogi'r llall.
*Sicrhau system drochi effeithiol o fewn y Dysgu Sylfaen

Monitro / Gwarantu Ansawdd
Fel ysgol, mae Ysgol Bro Pedr wedi ymrwymo i godi safonau llythrennedd trwy asesu. Fel y cyfryw, byddwn yn:

* Gwneud defnydd o brofion gwybyddol, darllen a sillafu diagnostig ym mhob Cyfnod Allweddol i nodi cynnydd ac anghenion myfyrwyr, gan gynnwys y Profion Darllen Cenedlaethol.
* Defnyddio asesiadau rheolaidd o sgiliau llythrennedd, ym mhob maes pwnc, i lywio penderfyniadau am gynnydd ac anghenion myfyrwyr.
*Gosod targedau llythrennedd ar gyfer myfyriwr, yn seiliedig ar asesiad ffurfiannol rheolaidd o'u cynnydd.
* Hyrwyddo defnydd o gôd marcio SPLAT ar draws adrannau, a fydd yn hysbysu, datblygu ac annog llythrennedd myfyrwyr.
* Cynnwys asesiadau o sgiliau llythrennedd wrth adrodd i rieni.
*Defnyddio egwyddorion allweddol y Cynllun Gweithredu Llythrennedd a'r FfLlRh i sicrhau cysondeb wrth asesu a'r dull llythrennedd.

Ein nod er mwyn sicrhau a gwarantu ansawdd y ddarpariaeth iaith a llythrennedd yw drwy:-



Ethos Gynhwysol
Nod Ysgol Bro Pedr yw sicrhau ethos gynhwysol ar draws. Er mwyn sicrhau cynnydd pob disgylb rydym yn :-



Y Gymuned ehangach / Rhieni
Rydym yn cydnabod rôl ganolog y rhiant a gwarchodwyr wrth gefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd ymhlith dysgwyr Bro Pedr. Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall rhieni hybu sgiliau llythrennedd gartref. Dylid rhannu'r wybodaeth hon mewn nosweithiau rhieni, cylchlythyr yr ysgol. Mae polisi drws agored gyda'r ysgol i gefnogi y dysgwyr a rhieni. Er enghraifft:-

• annog darllen er pleser, defnyddio llyfrgelloedd lleol a gweithio gyda disgyblion i weithredu ar gyngor ar gyfer gwelliant gan athrawon.
• Mynychu cyfarfodydd er mwyn casglu gwybodaeth am weithdrefnau ac arferion ymyrraeth ar gyfer y dysgwyr hynny sydd angen cymorth ychwanegol er mwyn cyflawni eu potensial yn yr ysgol.
• Rhoi gwybod i'r Cydlynydd ADY / CAAA neu Gydlynydd Llythrennedd am unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch anghenion llythrennedd eu plentyn.
• Cefnogi plant gyda thasgau gwaith cartref os oes angen.

Adolygu

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraethwyr a'i adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gysylltiad â'r Cwricwlwm a'r Fframwaith Sgiliau Trawsgwricwlaidd . Bydd adborth gan staff, dysgwyr a rhieni yn cael ei ystyried yn y broses adolygu a hynny yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn gynhwysol ac ymatebol i anghenion a blaenoriaethau yr Ysgol.